**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/0330/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

15 Chwefror 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich adroddiad manwl a gyhoeddwyd ar 16 Ionawr 2023. Hoffwn i ddiolch unwaith eto i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei waith diwyd ar Fil Banc Seilwaith y DU.

Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod pob cymal a restrir yn y Memorandwm yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn unol â Chasgliad 1 eich Adroddiad.

Nodaf eich bod yn eich Adroddiad yn ailadrodd eich pryderon ynghylch gwaith rhynglywodraethol. Fel y nodwyd yn fy ngohebiaeth flaenorol, er bod cynnydd yn araf ar adegau yn sgil digwyddiadau yn San Steffan yn bennaf, byddai proses ddatrys anghydfod ffurfiol wedi dwysáu'r sefyllfa'n ddiangen. Drwy gynnal sgwrs adeiladol, llwyddais i a fy swyddogion i gyflawni nifer o gonsesiynau, gan sicrhau y gallem argymell bod y Senedd yn rhoi caniatâd.

Byddwch yn ymwybodol y cafodd dadl ei chynnal ar 17 Ionawr 2023. Rwy'n falch bod y Senedd wedi cydsynio i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.